Ministry of Justice

# Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil

## Galwad am dystiolaeth

Mae'r alwad hon am dystiolaeth yn dechrau ar 10 Ionawr 2024

Daw'r alwad hon am dystiolaeth i ben ar 21 Chwefror 2024

**Galwad am dystiolaeth gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.**
**Hefyd ar gael yn https://consult.justice.gov.uk/**

# Amdan yr alwad hon am dystiolaeth

| | |
|---|---|
| **At:** | Yr holl bartïon budd / gyda diddordeb |
| **Parhad:** | Rhwng 10/01/2024 a 21/02/2024 |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i dderbyn y papur mewn fformat arall) at:** | Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil<br>E-bost: rocla@justice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Dylech anfon eich ymateb erbyn 21/02/2024<br>Gallwch ymateb ar-lein drwy *Consult Justice* neu ei anfon i e-bost yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil uchod. |

**Os hoffech dderbyn copi papur neu os byddai'n well gennych anfon copi caled o'ch ymateb yn y post, dylech gysylltu ar e-bost yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil uchod.**

# Cynnwys

**Rhagarweiniad** **2**

Gweledigaeth ar gyfer dyfodol y system cyfiawnder sifil, teulu a thribiwnlysoedd 2

Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil 2

**Cwestiynau** **5**

Cymorth cyfreithiol sifil 5

Cwestiynau cyffredinol 6

Ffioedd 7

Datblygu gyrfa ac amrywiaeth 7

Anghenion defnyddwyr 8

Defnyddio technoleg 8

Datrys yn gynnar 9

Meysydd eraill i'w hystyried 9

**Amdanoch chi** **10**

Sut i ymateb 11

Cwynion neu sylwadau 11

Cyhoeddi'r ymateb 11

Grwpiau cynrychiadol 11

Cyfrinachedd 11

**Atodiad A: Gweledigaeth ar gyfer dyfodol y system cyfiawnder sifil, teulu a thribiwnlysoedd** **13**

**Atodiad B: Y Cylch Gorchwyl** **14**

**Atodiad C: Data ar Gymorth Cyfreithiol Sifil** **15**

Incwm darparwyr cymorth cyfreithiol sifil 15

Nifer achosion cymorth cyfreithiol sifil 16

Nifer y darparwyr cymorth cyfreithiol sifil dan gontract 18

# Rhagarweiniad

## Gweledigaeth ar gyfer dyfodol y system cyfiawnder sifil, teulu a thribiwnlysoedd

Mae ein system gyfiawnder yno i warchod hawliau pobl. Er enghraifft, os nad yw busnesau'n cael eu talu, pan fydd cyplau'n gwahanu neu os bydd gweithwyr yn wynebu gwahaniaethu neu'n cael eu trin yn annheg yn y gwaith. Ond gwyddom pan fydd gan bobl broblemau cymhleth, gall y system ymddangos i fod yn anodd ei deall a'i defnyddio. Rydym eisiau trawsnewid y profiad hwnnw. Byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth a chymorth cynnar, perthnasol a defnyddiol ar gael. Drwy wneud hyn, bydd pobl yn gallu datrys problemau cyn iddynt waethygu, dod i gytundeb rhyngddynt eu hunain a, pan fo angen, derbyn penderfyniad barnwrol drwy'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Bydd y systemau ar gael yn gwneud y defnydd gorau o'r datblygiadau mewn technoleg.

Mae ein gweledigaeth lawn ar gyfer dyfodol y system cyfiawnder sifil, teulu a thribiwnlysoedd, a gyhoeddwyd gan yr Arglwydd Ganghellor a'r uwch-farnwriaeth ar 20 Tachwedd, ar gael yn Atodiad A. Mae'r Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil yn rhan o gyd-destun ehangach y gwaith sy'n cael ei wneud ar ddyfodol y system cyfiawnder sifil, teulu a thribiwnlysoed a bydd y cynigion polisi a ddaw allan o'r Adolygiad yn cyd-fynd ac ategu'r weledigaeth hon.

## Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil

Lansiodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil (RoCLA) yn Ionawr 2023. Fel y mae Cylch Gorchwyl yr Adolygiad yn ei ddisgrifio, pwrpas yr Adolygiad yw dod o hyd i opsiynau i wneud y system cymorth cyfreithiol sifil yn fwy cynaliadwy a sicrhau y gall roi mynediad at gyfiawnder yn y tymor hir. Hoffem ddiolch i randdeiliaid am eu hymgysylltiad adeiladol parhaus yn yr Adolygiad a byddem yn croesawu eu mewnbwn i'r alwad hon am dystiolaeth.

Bydd yr Adolygiad yn dadansoddi 11 categori o'r gyfraith gontractau o dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012, gan wneud hynny'n gynhwysfawr. Yr 11 categori yw: Hawliadau yn erbyn Awdurdodau Cyhoeddus, Categori Esgeulustod Clinigol, Gofal Cymunedol, Gwahaniaethu, Addysg, Teulu, Tai a Dyledion, Mewnfudo a Lloches, Iechyd Meddwl, Cyfraith Gyhoeddus a Budd-daliadau Lles. Er mwyn rhoi ychydig o gyd-destun i'r system cymorth cyfreithiol sifil bresennol, yn Atodiad C rydym wedi cynnwys data am y cyfnod 2018-2023 ar i) incwm darparwyr cymorth cyfreithiol sifil,

ii) nifer y materion neu achosion a gwblhawyd (nifer achosion), a iii) nifer y darparwyr dan gontract ym mhob categori o'r gyfraith.

Bydd yr Adolygiad yn edrych ar y system yn ei chyfanrwydd gan gyfuno nifer o wahanol ffynonellau tystiolaeth i benderfynu sut i wneud **cymorth cyfreithiol sifil** yn fwy **effeithlon** ac **effeithiol** ac felly'n **fwy cynaliadwy yn y tymor hir**.

Er mwyn ehangu ar hyn, nod yr Adolygiad yw sicrhau bod y system cymorth cyfreithiol sifil yn:

**Effeithlon:** gwneud y defnydd gorau o adnoddau er mwyn darparu cymorth cyfreithiol sifil da mewn ymateb i'r galw, gyda thâl teg am y gwaith a wneir.

**Effeithiol:** mesur pa mor dda y mae'r system cymorth cyfreithiol sifil yn cyflawni'r nod o sicrhau bod cyngor cyfreithiol wedi'i ariannu'n gyhoeddus ar gael pan fo'i angen.

**Cynaliadwy:** system sy'n gallu denu a chadw darparwyr sy'n ddigonol o ran nifer, ansawdd a phrofiad i roi cyngor, cymorth a chynrychiolaeth gyfreithiol effeithiol i bawb sy'n gymwys, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn cwrdd â'r galw yn y tymor hir.

Mae'r Adolygiad yn cynnwys pedair ffrwd waith ddadansoddi gan ddefnyddio dull cynhwysfawr o gasglu data, gyda'r bwriad o adnabod ystod o opsiynau i wneud y farchnad cymorth cyfreithiol sifil yn fwy cynaliadwy yn y tymor hir. Mae'r pedair ffrwd waith yn gobeithio gorffen eu gwaith erbyn Mawrth 2024.

i. Bydd y ffrwd waith **Dadansoddi Economaidd** yn canolbwyntio ar adolygu ac asesu strwythur y farchnad cymorth cyfreithiol sifil. Mae gan y dadansoddiad ddau nod: 1) asesu sut y mae'r farchnad yn gweithio ar hyn o bryd ac adnabod achosion gwraidd ei phroblemau, a 2) cynnig newidiadau strwythurol i'w gwneud yn fwy effeithlon, effeithiol a chynaliadwy.

ii. Bydd y ffrwd waith **Cymhariaeth Ryngwladol** yn gwneud dadansoddiad cymharol o systemau cymorth cyfreithiol sifil mewn chwe gwlad. Y nod yw adnabod dulliau addawol o weithio i wneud darparu cymorth cyfreithiol sifil a mynediad at gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn fwy effeithlon ac effeithiol.

iii. Bydd y ffrwd waith **Cyhoeddi Data** yn cynhyrchu cyfres o ddogfennau'n crynhoi gwybodaeth ddisgrifiadol allweddol am wasanaethau cymorth cyfreithiol sifil, gyda ffocws ar newidiadau dros amser.

iv. Bydd y ffrwd waith **Ymchwil Gymdeithasol i Siwrne Defnyddwyr** yn gwneud ymchwil gyda phobl a dderbyniodd gymorth cyfreithiol sifil. Nod yr ymchwil fydd trafod eu profiadau o'r broses cymorth cyfreithiol sifil, adnabod problemau o safbwynt y defnyddiwr, a darparu opsiynau i wella'r broses.

Wrth gasglu tystiolaeth i asesu'r system cymorth cyfreithiol yn unol â'r meini prawf uchod, bydd yr Adolygiad yn ystyried (ond ni fydd wedi'i gyfyngu i) y pynciau canlynol:

a. ydy defnyddwyr yn gallu derbyn cyngor priodol yn brydlon (gan gynnwys ar faterion cymhleth a thrawsbynciol)

b. manteision 'pendraw' cymorth cyfreithiol

c. beichiau gweinyddol ar yr holl bartïon allweddol

d. y broses o gaffael contractau a hyblygrwydd contractau, gan gynnwys gofynion, tendro am a rheoli contractau

e. hygyrchedd cymorth cyfreithiol ar draws Cymru a Lloegr

f. profiad y defnyddiwr a 'thagfeydd' yn y system

g. strwythurau ffioedd, a

h. amrywiaeth darparwyr cymorth cyfreithiol.

Bydd yr ymatebion a ddaw i law drwy'r alwad hon am dystiolaeth yn goleuo'r Adolygiad ymhellach gan gryfhau'r dystiolaeth ac ychwanegu at y wybodaeth a gasglwyd drwy'r pedair ffrwd waith.

Ar ôl cwblhau holl ffrydiau gwaith yr RoCLA, bydd gwaith datblygu polisi'n parhau er mwyn paratoi i ymgynghori â'r cyhoedd ar yr opsiynau arfaethedig nes ymlaen yn y flwyddyn. Bydd yr opsiynau arfaethedig yn berthnasol i Gymru a Lloegr ac yn ystyried, ynghyd â'r dystiolaeth a gasglwyd, ystod o ffactorau pellach fel gwerth am arian i drethdalwyr a chyfyngiadau cyllideb ehangach.

# Cwestiynau

Nod yr alwad am dystiolaeth yw casglu mwy o wybodaeth er mwyn goleuo'r Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil ymhellach a bwydo mewn i waith datblygu polisi.

Mae'r Adolygiad yn croesawu tystiolaeth o dan y Cylch Gorchwyl (wele Atodiad B) gan ofyn am sylwadau a thystiolaeth yn ymwneud â'r cwestiynau isod. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn ymatebion fydd yn cynyddu tystiolaeth fydd yn goleuo'r Adolygiad a datblygiad polisi yn y dyfodol. Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth neu ddata penodol sy'n ategu eich ymatebion i'r cwestiynau isod.

## Cymorth cyfreithiol sifil

Mae cymorth cyfreithiol yn wasanaeth wedi'i ariannu'n gyhoeddus sy'n darparu cyngor a chymorth cyfreithiol, cyfryngu teuluol a chynrychiolaeth mewn llys neu dribiwnlys. Mae cymorth cyfreithiol sifil yn cwmpasu cynrychiolaeth gyfreithiol sef, yn bennaf, gwaith ardystiedig (h.y. wedi'i ddarparu drwy dystysgrif cymorth cyfreithiol gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol i'r darparwr cymorth cyfreithiol), a gwaith rheoledig, sy'n dirprwyo penderfyniadau am fodd a theilyngdod i ddarparwyr. Mae gwaith rheoledig yn cynnwys help cyfreithiol (er enghraifft cyngor a chymorth cynnar cyn mynd i'r llys), cyfryngu teuluol, a chynrychiolaeth gyfreithiol reoledig (ar gyfer rhai materion mewnfudo ac iechyd meddwl).[1]

I dderbyn cymorth cyfreithiol, rhaid i achos ymgeisydd fod o fewn sgôp cymorth cyfreithiol neu gwrdd â'r gofynion ar gyfer derbyn Cyllid Achos Eithriadol (ECF). Os yw mater yn disgyn y tu allan i sgôp cymorth cyfreithiol, gallai cyllid dal fod ar gael drwy'r Cynllun ECF a byddai peidio â rhoi'r cyllid hwn yn mynd yn groes, neu gallai fod risg o fynd yn groes, i hawliau dynol neu gyfraith orfodadwy'r Undeb Ewropeaidd, a hefyd yn amodol ar brofion modd a theilyngdod statudol. Disgrifir sgôp cymorth cyfreithiol sifil yn Neddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.[2] Er mwyn derbyn cymorth cyfreithiol, rhaid i ymgeisydd fel arfer basio prawf teilyngdod a phrawf modd. Mae'r prawf teilyngdod yn wahanol rhwng gwahanol fathau o achosion ac yn asesu teilyngdod yr achos. Gallai gynnwys, er enghraifft, pa mor debygol yw'r hawliad o lwyddo a'r fantais i'r cleient. Mae'r prawf modd yn asesu cymhwyster ariannol yr ymgeisydd. Cyflawnodd yr MoJ Adolygiad yn

1 https://www.gov.uk/government/consultations/legal-aid-means-test-review/legal-aid-means-test-review#chapter-1-the-current-legal-aid-means-tests, paragraph 49

2 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/10/schedule/1/enacted

ddiweddar o Brofion Modd Cymorth Cyfreithiol.[3] Nid yw rhai achosion yn cael prawf modd, gelwir y rhain yn achosion 'di-brawf modd'.

## Cwestiynau cyffredinol

Mae'r cwestiynau hyn yn holi barn am faterion cyffredinol, trawsbynciol yn ymwneud â chymorth cyfreithiol fel awgrymiadau ar gyfer gwella, risgiau a chyfleoedd yn y dyfodol, a manteision ehangach cymorth cyfreithiol sifil.

1. A oes gennych unrhyw awgrymiadau am newidiadau a allai wella cymorth cyfreithiol sifil – newidiadau tymor byr a hirach?
   1.1. A oes gennych unrhyw awgrymiadau am newidiadau – tymor byr a hirach - a allai wella pob un o'r categorïau cyfraith canlynol?
      a. Teulu
      b. Gofal Cymunedol
      c. Tai a Dyledion
      d. Mewnfudo a Lloches
      e. Iechyd Meddwl
      f. Gwahaniaethu
      g. Addysg
      h. Cyfraith Gyhoeddus
      i. Hawliadau yn erbyn Awdurdodau Cyhoeddus
      j. Esgeulustod Clinigol
      k. Budd-daliadau Lles

   Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth neu ddata penodol sy'n ategu eich awgrymiadau.

2. Beth yw'r problemau cymorth cyfreithiol sifil yn eich ardal leol chi? Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth neu ddata penodol sy'n ategu eich ymateb.

3. Beth yw'r newidiadau i sut y mae cymorth cyfreithiol sifil yn cael ei weinyddu a fyddai fwyaf o fudd i ddarparwyr? Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth neu ddata penodol sy'n ategu eich ymateb.

4. Pa risgiau a chyfleoedd yr ydych yn rhagweld a allai godi yn y dyfodol i gymorth cyfreithiol sifil: i) yn gyffredinol; a ii) os na newidir y system bresennol? Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth neu ddata penodol sy'n ategu eich ymateb.

[3] https://www.gov.uk/government/consultations/legal-aid-means-test-review/legal-aid-means-test-review#:~:text=16)%20The%20Means%20Test%20Review,capital%20contributions%20potentially%20payable%20towards

5. Beth yw manteision 'pen draw' posib cymorth cyfreithiol sifil? Defnyddir y term 'manteision pen-draw' i ddisgrifio'r arbedion cost, manteision eraill i lywodraeth, a'r manteision ehangach i gymdeithas, pan fydd gan bobl fynediad at gyngor a chynrychiolaeth drwy gymorth cyfreithiol. Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth neu ddata penodol sy'n ategu eich ymateb.

## Ffioedd

Nod yr Adolygiad yw sicrhau bod cymorth cyfreithiol sifil yn opsiwn busnes ariannol hyfyw i ddarparwyr cymorth cyfreithiol (preifat a di-wneud-elw) ac yn ddewis gyrfaol deniadol. Mae'r cwestiwn hwn yn holi barn am y cymhellion sy'n cael eu creu gan strwythur y system ffioedd bresennol.

6. Beth yw eich barn am y cymhellion sy'n cael eu creu gan strwythur y system ffioedd bresennol?
    6.1. Ydych chi'n meddwl eu bod yn cyfrannu at ddatrys problemau'n effeithiol cyn gynted â phosib?
    6.2. Sut allai'r system gael ei strwythuro'n well?

    Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth neu ddata penodol sy'n ategu eich ymateb ac unrhyw farn neu syniadau am ffyrdd eraill o dalu neu gymhellion.

## Datblygu gyrfa ac amrywiaeth

Mae'r cwestiynau hyn yn holi barn am ddatblygu gyrfa a sut y gallai amrywiaeth y proffesiwn gael ei gynyddu. Mae'n bwysig i'r sector adlewyrchu'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu a defnyddio'r talentau gorau mewn cymdeithas fel bod gan y cyhoedd hyder yn y gwasanaethau cyfreithiol a roddir iddynt. Mae sector mwy amrywiol hefyd yn golygu 'piblinell' fwy amrywiol i'r farnwriaeth. Mae'r MoJ yn awyddus i ddeall beth yn fwy y gall ei wneud i wella amrywiaeth yng nghyd-destun ymarferwyr cymorth cyfreithiol sifil.

7. A oes unrhyw beth yn benodol mewn cymorth cyfreithiol sifil sy'n atal ymarferwyr gyda nodweddion a warchodir rhag dechrau a pharhau eu gyrfaoedd? Os oes, sut y gallai hyn gael ei ddatrys? Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth neu ddata penodol sy'n ategu eich ymateb.

8. Sut y gallai amrywiaeth y proffesiwn cymorth cyfreithiol gael ei gynyddu gan gynnwys o ran tarddiad ethnig, anabledd, rhyw, oed a chefndir economaidd-gymdeithasol? Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth neu ddata penodol sy'n ategu eich ymateb.

## Anghenion defnyddwyr

Nod yr Adolygiad yw sicrhau bod cymorth cyfreithiol sifil yn hygyrch i bobl sy’n gymwys i’w dderbyn a bod y bobl hyn yn gallu ymgeisio’n llwyddiannus am, a derbyn, cymorth cyfreithiol. Mae’r cwestiynau hyn yn holi barn am brofiad ac anghenion y bobl sy’n sy’n ymgeisio am a derbyn cymorth cyfreithiol sifil a sut orau i ateb yr anghenion hyn.

9. Pa rwystrau yn eich barn chi y mae pobl yn dod ar eu traws wrth geisio cael mynediad at gymorth cyfreithiol sifil? Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth neu ddata penodol sy’n ategu eich ymateb.

10. Beth y gellir ei wneud i wella’r dewis i gleientiaid fel bo’n hawdd iddynt ddod o hyd i ddarparwyr cymorth cyfreithiol sifil a gwneud penderfyniadau gwybodus am ba un sy’n ateb eu hanghenion orau? Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth neu ddata penodol sy’n ategu eich ymateb.

11. Ydych chi’n meddwl bod rhai pobl sy’n gymwys am gymorth cyfreithiol sifil efallai ddim yn gwybod ei fod ar gael a / neu sut i’w dderbyn? Os felly, sut yr awgrymwch y dylid datrys y broblem? Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth neu ddata penodol sy’n ategu eich ymateb.

12. Sut y credwch y gellid helpu pobl sy’n derbyn cymorth cyfreithiol sifil os oes ganddynt amryw neu ‘glwstwr’ o broblemau cyfreithiol, a rhai ohonynt y tu allan i sgôp cymorth cyfreithiol sifil? Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth neu ddata penodol sy’n ategu eich ymateb.

13. Sut y teimlwch y mae’r cynllun Cyllid Achos Eithriadol yn gweithio ar hyn o bryd ac a oes ffyrdd y gallai gael ei wella? Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth neu ddata penodol sy’n ategu eich ymateb.

## Defnyddio technoleg

Nod yr Adolygiad yw bwydo i amcanion strategol ehangach y MoJ ar ddefnyddio technoleg. Dylai technoleg gynorthwyo defnyddwyr i ddefnyddio’r broses gyfreithiol a chyfrannu at weithrediad llyfn y system cyfiawnder sifil. Mae’r cwestiynau hyn yn holi barn am sut y gallai technoleg wella cymorth cyfreithiol sifil, gan gynnwys drwy gyngor o bell, lle bo’n briodol.

14. Ym mha ffyrdd y gellid defnyddio technoleg i ddarparu cymorth cyfreithiol sifil yn well a gwella cynaliadwyedd darparwyr cymorth cyfreithiol sifil? Rydym yn awyddus i glywed am welliannau posib o safbwynt darparwyr cymorth cyfreithiol a phobl sy’n defnyddio

cymorth cyfreithiol sifil. Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth neu ddata penodol sy'n ategu eich ymateb.

15. Gall cyngor cyfreithiol o bell, er enghraifft dros y ffôn neu drwy alwad fideo, fod yn fanteisiol i ddarparu cyngor cymorth cyfreithiol sifil. Byddem yn falch o dderbyn tystiolaeth neu syniadau penodol am sut allai'r system wneud y defnydd mwyaf effeithiol o wasanaethau cyngor o bell, a goblygiadau hyn i wasanaethau.

16. Beth yn eich barn chi yw'r rhwystrau i ddefnyddio technoleg, i ddarparwyr a defnyddwyr cymorth cyfreithiol sifil?
    16.1. A oes unrhyw gategorïau o'r gyfraith lle y gallai defnyddio technoleg fod yn arbennig o fanteisiol?
    16.2. A oes unrhyw gategorïau o'r gyfraith lle y gallai defnyddio technoleg fod yn arbennig o heriol?

Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth neu ddata penodol sy'n ategu eich ymateb.

## Datrys yn gynnar

Nod yr Adolygiad yw bwydo i amcan strategol ehangach y MoJ o annog, lle bo hynny'n briodol, datrys anghydfod yn gynnar, gan roi mynediad diymdroi at gyfiawnder drwy ymgysylltu'n gynnar lle bo'n briodol. Mae'r cwestiwn hwn yn holi barn am sut y gellid annog datrys anghydfodau'n gynnar.

17. Beth a allai gael ei wneud i annog datrys yn gynnar a / neu atal anghydfod yn y lle cyntaf drwy'r system cymorth cyfreithiol sifil? Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth neu ddata penodol sy'n ategu eich ymateb.

## Meysydd eraill i'w hystyried

18. A oes unrhyw beth arall y dymunwch ei gyflwyno i'r Adolygiad ei ystyried? Dylech ddarparu unrhyw fanylion ategol y teimlwch sy'n briodol.

**Diolch i chi am gymryd rhan yn yr alwad hon am dystiolaeth.**

# Amdanoch chi

Defnyddiwch y rhan yma i roi manylion amdanoch eich hun.

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl swydd** neu ym mha gapasiti yr ydych yn ymateb i'r alwad hon am dystiolaeth (e.e. fel aelod o'r cyhoedd, ayyb) | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw cwmni / sefydliad** (lle bo'n berthnasol): | |
| **Cyfeiriad** | |
| | |
| **Cod post** | |
| Os hoffech i ni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn | ☐<br>(ticiwch y blwch) |
| Cyfeiriad y dylid anfon cydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r un uchod | |
| | |
| | |

**Os ydych yn cynrychioli grŵp**, rhowch enw'r grŵp a chrynodeb o'r bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

## Sut i ymateb

Gallwch ymateb ar-lein drwy Consult Justice neu ei anfon i e-bost yr Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol Sifil: rocla@justice.gov.uk.

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am broses yr alwad am dystiolaeth, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) yn y cyfeiriad isod:

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ

Gallwch hefyd anfon eich cwyn a / neu sylwadau at rocla@justice.gov.uk <mailto:rocla@justice.gov.uk>.

## Cyhoeddi'r ymateb

Bydd yr ymatebion i'r alwad hon am dystiolaeth yn goleuo'r Adolygiad a bwydo i'r gwaith datblygu polisi. Bwriadwn gyhoeddi'r ymatebion i'r alwad am dystiolaeth a byddai hyn yn unol â'r ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth (sef yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

## Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maen nhw'n eu cynrychioli wrth ymateb.

## Cyfrinachedd

Gallai'r wybodaeth a roddir mewn ymateb i'r alwad hon am wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu'n unol â'r ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth (sef yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 2018 (DPA), Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych eisiau i'r wybodaeth a roddwch gael ei thrin yn gyfrinachol, cofiwch o dan y Ddeddf FOIA fod Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus

gydymffurfio â fo'n ymwneud, ymhlith pethau eraill, ag ymrwymiadau cyfrinachedd. O gofio hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro pam eich bod yn ystyried y wybodaeth a roesoch i ni fel gwybodaeth gyfrinachol. Os derbyniwn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn ond ni allwn roi unrhyw sicrwydd y byddwn yn cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol bob tro. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn rhwymo'r Weinyddiaeth o gwbl.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r DPA ac, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon.

# Atodiad A: Gweledigaeth ar gyfer dyfodol y system cyfiawnder sifil, teulu a thribiwnlysoedd

Mae pobl yn dibynnu ar ein system cyfiawnder sifil, teulu a thribiwnlysoedd i warchod a gorfodi eu hawliau. Mae hyn yn berthnasol i unigolion ag anghenion cymhleth sy'n delio â thrafferthion dyled a thai, ac i berchnogion busnes sy'n delio ag anghydfodau cytundebol cymhleth.

Rydym eisiau ei gwneud yn haws i bobl gyda phroblemau cyfreithiol dderbyn gwybodaeth a chymorth o ansawdd da ar yr amser iawn ac yn y ffordd iawn. Bydd y bobl hyn yna'n gallu deall eu gwahanol opsiynau a gwneud y peth iawn i atal eu problemau rhag gwaethygu. Byddwn yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i'w helpu, gan gynnwys ystyried defnyddiau diogel a phriodol o AI.

Rydym eisiau cynorthwyo pobl i ddatrys eu problemau'n gynt ac am lai o gost, er enghraifft drwy gyfryngu neu ddatrys anghydfod ar-lein. Dylent fod yn dawel eu meddwl, os na fydd hyn yn llwyddo, y bydd y cam nesaf o geisio penderfyniad barnwrol drwy'r llysoedd neu'r tribiwnlysoedd yn ddidrafferth iddynt. Byddwn yn annog a chreu cysylltiadau ar-lein ac all-lein rhwng gwahanol rannau o'r system i gynhyrchu atebion.

Er mwyn cael proses gyd-gysylltiedig, bydd angen trosglwyddo data pobl yn effeithiol a diogel. Rydym wedi sefydlu'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Ar-lein (OPRC) i ddarparu llywodraethu a datblygu safonau data ar gyfer y system. Byddwn yn cefnogi'r OPRC i wreiddio'r safonau hyn gyda'r cwmnïau preifat a thrydydd sector sy'n darparu gwasanaethau gwybodaeth, cymorth a datrys anghydfod.

Mae hyn yn weledigaeth eang ac uchelgeisiol ar gyfer dyfodol cyfiawnder sifil, teulu a thribiwnlysoedd. A gallwn ond ei gwireddu drwy gydweithio â rhanddeiliaid ar draws y system. Drwy gydweithredu fel hyn, byddwn yn sicrhau bod ein system gyfiawnder yn cefnogi pobl cyn gynted ag y maen nhw'n profi problem gyfreithiol. Bydd yn rhoi'r wybodaeth a'r cymorth iawn i bobl i ddeall eu holl opsiynau. Bydd yn eu grymuso i ddatrys eu problem mewn ffordd sy'n ateb eu hanghenion ac sy'n gymesur i fater yr anghydfod. Bydd penderfyniad barnwrol drwy ein llysoedd a thribiwnlysoedd bob amser ar gael os bydd angen.

Dyma ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol y system cyfiawnder sifil, teulu a thribiwnlysoedd a gyhoeddwyd gan yr Arglwydd Ganghellor a'r uwch-farnwriaeth ar 20 Tachwedd.

# Atodiad B: Y Cylch Gorchwyl

**Gallwch ddarllen Y Cylch Gorchwyl ar gov.uk.**

# Atodiad C: Data ar Gymorth Cyfreithiol Sifil

Mae'r tablau canlynol wedi eu codi o'r ystadegau ar gymorth cyfreithiol: Rhwng Ebrill a Mehefin 2023.[4] Maen nhw'n dangos incwm darparwyr cymorth cyfreithiol sifil, nifer y materion neu achosion a gwblhawyd (nifer achosion) a nifer y darparwyr dan gontract ar draws y categorïau o'r gyfraith dros y 5 mlynedd diwethaf. Cofiwch:

- Mae tai'n cynnwys y cynllun dyletswydd llys.
- Mae'r nifer achosion ac incwm darparwyr wedi eu dyrannu i'r cyfnod pryd y cwblhawyd y mater / achos oherwydd dyna pryd y mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) yn derbyn manylion llawn yr achos.
- Mae incwm darparwyr yn cynnwys yr holl daliadau a dderbynnir gan ddarparwyr (cyfreithwyr ac eiriolwyr) am waith cymorth cyfreithiol sifil, gan gynnwys ffioedd, all-daliadau a TAW p'un ai'r LAA neu'r gwrthwynebydd sy'n eu talu.

## Incwm darparwyr cymorth cyfreithiol sifil

| | 2018–19 | 2019–20 | 2020–21 | 2021–22 | 2022–23 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Teulu** | | | | | |
| Cyfryngu | £5m | £6m | £6m | £6m | £6m |
| Teulu - preifat | £87m | £94m | £99m | £130m | £160m |
| Teulu - cyhoeddus | £470m | £510m | £480m | £530m | £620m |
| **Sifil arall** | | | | | |
| Hawliadau yn erbyn awdurdodau cyhoeddus | £20m | £23m | £22m | £33m | £32m |
| Esgeulustod clinigol | £90m | £100m | £57m | £79m | £68m |
| Gofal cymunedol | £13m | £18m | £22m | £23m | £25m |
| Defnyddwyr | £0.3m | £0.2m | £0.2m | £0.1m | £0.1m |
| Dyled | £0.5m | £0.5m | £0.2m | £0.1m | £0.1m |
| Gwahaniaethu | £0.9m | £1m | £1m | £2m | £2m |
| Addysg | £2m | £3m | £2m | £3m | £3m |
| Cyflogaeth | £0.04m | £0.04m | £0.01m | £0.04m | £0.01m |
| Tai | £43m | £41m | £31m | £30m | £33m |

4 https://www.gov.uk/government/statistics/legal-aid-statistics-april-to-june-2023

| | 2018–19 | 2019–20 | 2020–21 | 2021–22 | 2022–23 |
|---|---|---|---|---|---|
| Mewnfudo | £51m | £54m | £42m | £47m | £54m |
| Iechyd meddwl | £44m | £46m | £41m | £44m | £47m |
| Amrywiol | £4m | £4m | £3m | £4m | £6m |
| Anafiadau personol | £1m | £2m | £1m | £0.7m | £0.5m |
| Cyfraith gyhoeddus | £13m | £13m | £13m | £20m | £23m |
| Budd-daliadau lles | £0.3m | £0.1m | £0.3m | £0.1m | £0.09m |
| **Cyfanswm** | **£850m** | **£920m** | **£830m** | **£950m** | **£1,080m** |

Wedi eu cyfannu i un ffigur arwyddocaol o dan £1m, yr £1m agosaf hyd at £100m, a'r £10m agosaf dros £100m.

## Nifer achosion cymorth cyfreithiol sifil

**Hawliadau gwaith rheoledig a gyflwynwyd:** gwaith rheoledig yw pan awdurdodir darparwyr i ddechrau gwaith ac mae'n cynnwys help cyfreithiol (e.e. cyngor a chymorth cynnar cyn mynd i'r llys), cyfryngu teuluol, a chynrychiolaeth gyfreithiol reoledig (ar gyfer materion mewnfudo ac iechyd meddwl penodol).

| | 2018–19 | 2019–20 | 2020–21 | 2021–22 | 2022–23 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Teulu** | | | | | |
| Asesiadau cyfryngu | 26,295 | 30,305 | 30,892 | 30,247 | 28,533 |
| Canlyniadau cyfryngu | 6,377 | 7,405 | 7,720 | 8,055 | 7,213 |
| Teulu - preifat | 8,394 | 8,875 | 6,716 | 7,102 | 6,237 |
| Teulu - cyhoeddus | 18,009 | 16,590 | 13,963 | 14,696 | 14,401 |
| **Sifil arall** | | | | | |
| Hawliadau yn erbyn awdurdodau cyhoeddus | 1,466 | 1,523 | 1,400 | 1,389 | 1,161 |
| Esgeulustod clinigol | 4 | 7 | 2 | 1 | 2 |
| Gofal cymunedol | 1,664 | 1,736 | 1,377 | 1,308 | 1,655 |
| Defnyddwyr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dyled | 445 | 427 | 66 | 273 | 449 |
| Gwahaniaethu | 1,999 | 1,530 | 1,388 | 1,942 | 1,712 |
| Addysg | 1,815 | 2,121 | 1,368 | 1,256 | 1,179 |
| Cyflogaeth | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Tai | 69,172 | 59,813 | 19,724 | 37,719 | 48,850 |

| | 2018–19 | 2019–20 | 2020–21 | 2021–22 | 2022–23 |
|---|---|---|---|---|---|
| Mewnfudo | 38,853 | 44,444 | 33,338 | 38,795 | 47,423 |
| Iechyd meddwl | 35,365 | 36,892 | 33,546 | 33,331 | 33,122 |
| Amrywiol | 56 | 46 | 38 | 70 | 61 |
| Anafiadau personol | 4 | 6 | 3 | 0 | 0 |
| Cyfraith gyhoeddus | 1,146 | 1,488 | 1,742 | 2,107 | 2,543 |
| Budd-daliadau lles | 350 | 224 | 135 | 138 | 76 |
| **Cyfanswm** | **211,414** | **213,433** | **153,418** | **178,429** | **194,617** |

Mae ffigurau'r 'asesiadau cyfryngu' yn cynnwys rhai lle'r oedd y ddwy ochr yn bresennol (cyfarfod asesu – gyda'i gilydd) a hanner yr achosion mynychu lle'r oedd y ddwy ochr yn ymddangos ar wahân (cyfarfod asesu – ar wahân). Nid yw asesiadau lle'r oedd ond un ochr / parti'n cytuno i gyfryngu (cyfarfod asesu – arunig) yn cael eu cynnwys yn y cyfanswm.

**Tystysgrifau gwaith trwyddedig a gwblhawyd:** gwaith trwyddedig yw pan fydd angen i ddarparwyr gael tystysgrif cymorth cyfreithiol, fel arfer gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, i ddechrau gweithio (er enghraifft cynrychiolaeth gyfreithiol).

| | 2018–19 | 2019–20 | 2020–21 | 2021–22 | 2022–23 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Teulu** | | | | | |
| Teulu - preifat | 25,187 | 27,326 | 28,435 | 33,684 | 36,602 |
| Teulu - cyhoeddus | 69,205 | 66,882 | 54,615 | 55,997 | 57,948 |
| **Sifil arall** | | | | | |
| Hawliadau yn erbyn awdurdodau cyhoeddus | 703 | 923 | 772 | 1,064 | 1,081 |
| Esgeulustod clinigol | 754 | 640 | 289 | 412 | 368 |
| Gofal cymunedol | 1,246 | 1,450 | 1,641 | 1,528 | 1,648 |
| Defnyddwyr | 12 | 11 | 7 | 13 | 8 |
| Dyled | 62 | 67 | 49 | 23 | 17 |
| Gwahaniaethu | 9 | 7 | 10 | 35 | 36 |
| Addysg | 34 | 31 | 30 | 72 | 69 |
| Cyflogaeth | 6 | 1 | 2 | 4 | 1 |
| Tai | 7,466 | 7,727 | 5,200 | 3,789 | 4,285 |
| Mewnfudo | 1,409 | 1,025 | 936 | 1,049 | 990 |
| Iechyd meddwl | 1,040 | 1,105 | 1,198 | 1,215 | 1,574 |
| Amrywiol | 530 | 548 | 497 | 532 | 513 |

| | 2018–19 | 2019–20 | 2020–21 | 2021–22 | 2022–23 |
|---|---|---|---|---|---|
| Anafiadau personol | 28 | 39 | 5 | 14 | 12 |
| Cyfraith gyhoeddus | 852 | 853 | 929 | 1,200 | 1,282 |
| Budd-daliadau lles | 6 | 10 | 9 | 7 | 8 |
| **Cyfanswm** | **108,549** | **108,645** | **94,624** | **100,638** | **106,442** |

## Nifer y darparwyr cymorth cyfreithiol sifil dan gontract

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y darparwyr dan gontract ym mhob categori ar ddiwedd y flwyddyn ariannol dan sylw. Am bob categori, dangosir y darparwyr a faint o swyddfeydd sydd gan y darparwyr hyn.

| | | 2018–19 | 2019–20 | 2020–21 | 2021–22 | 2022–23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Teulu** | Darparwyr | 1,032 | 994 | 967 | 906 | 862 |
| | Swyddfeydd | 1,722 | 1,660 | 1,587 | 1,494 | 1,436 |
| **Hawliadau yn erbyn awdurdodau cyhoeddus** | Darparwyr | 80 | 75 | 71 | 66 | 62 |
| | Swyddfeydd | 119 | 114 | 105 | 95 | 90 |
| **Esgeulustod clinigol** | Darparwyr | 100 | 99 | 96 | 92 | 86 |
| | Swyddfeydd | 175 | 172 | 165 | 158 | 153 |
| **Gofal cymunedol** | Darparwyr | 94 | 89 | 83 | 77 | 71 |
| | Swyddfeydd | 146 | 138 | 129 | 121 | 107 |
| **Dyled** | Darparwyr | 297 | 267 | 247 | 223 | 208 |
| | Swyddfeydd | 482 | 438 | 410 | 374 | 343 |
| **Gwahaniaethu** | Darparwyr | 0 | 17 | 16 | 18 | 16 |
| | Swyddfeydd | 0 | 23 | 20 | 22 | 19 |
| **Addysg** | Darparwyr | 0 | 8 | 8 | 12 | 11 |
| | Swyddfeydd | 0 | 18 | 17 | 20 | 18 |
| **Tai** | Darparwyr | 296 | 267 | 247 | 223 | 208 |
| | Swyddfeydd | 481 | 438 | 410 | 374 | 343 |
| **Mewnfudo** | Darparwyr | 204 | 189 | 176 | 167 | 153 |
| | Swyddfeydd | 305 | 282 | 264 | 249 | 224 |
| **Iechyd meddwl** | Darparwyr | 156 | 148 | 136 | 130 | 124 |
| | Swyddfeydd | 181 | 176 | 160 | 153 | 143 |

| | | 2018–19 | 2019–20 | 2020–21 | 2021–22 | 2022–23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfraith gyhoeddus** | Darparwyr | 110 | 99 | 94 | 87 | 81 |
| | Swyddfeydd | 155 | 141 | 130 | 122 | 114 |
| **Budd-daliadau lles** | Darparwyr | 52 | 43 | 39 | 34 | 29 |
| | Swyddfeydd | 71 | 58 | 53 | 47 | 37 |

Dylid nodi, oherwydd bod gan ddarparwyr a swyddfeydd efallai gontractau mewn mwy nag un categori, na fydd cyfanswm y darparwyr a'r swyddfeydd sy'n gweithio mewn nifer o gategorïau yn gyfanswm y gwerthoedd a ddangosir yma.

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2024**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored Fersiwn 3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd â hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi ofyn am ganiatâd gan bwy bynnag sy'n dal yr hawlfraint honno.